Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

Ysgol Bro Dinefwr
Heol Myrddin
Ffairfach
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6PE

Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Bro Dinefwr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad craidd

### A1. Gwella addysgu, gan roi sylw penodol i godi disgwyliadau athrawon o'r hyn all disgyblion gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cyflwyno ystod o strategaethau addas a hyfforddiant pwrpasol i wella'r addysgu. Mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu yn gyffredinol .

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn rheoli eu dosbarthiadau’n effeithiol, gan feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn defnyddio cwestiynau caeedig yn briodol i annog disgyblion i adalw gwybodaeth. Mae llawer o athrawon yn cynllunio’n addas er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae’r mwyafrif yn modelu iaith a therminoleg yn briodol er mwyn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd.

Mewn ychydig o wersi, ceir enghreifftiau o addysgu effeithiol iawn lle mae athrawon yn cynllunio’n fedrus, yn gosod tasgau heriol addas ac yn holi disgyblion yn dreiddgar i’w herio i feddwl yn ddwys a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae’r athrawon hyn yn defnyddio iaith soffistigedig wrth gyflwyno ac egluro ac yn annog disgyblion i efelychu hyn yn eu hymatebion. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn y gwersi hyn.

Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel. Nid ydynt yn cynllunio’n ddigon miniog nac yn cynnig lefel briodol o her i ddisgyblion o wahanol alluoedd. Yn y gwersi hyn, mae tasgau’n tueddu i fod yn ailadroddus neu heb eu haddasu’n ddigonol, ac mae gor-reoli’r dysgu gan yr athro yn cyfyngu datblygiad annibyniaeth disgyblion. Mae diffyg cwestiynu addas yn rhwystro disgyblion rhag ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a’u hannibyniaeth cymaint ag y gallent.

Mae cysondeb yn y modd mae athrawon ar draws y cwricwlwm yn rhoi tasg ychwanegol i ddisgyblion wella darn o’u gwaith yn dilyn asesiad. Gan amlaf mae disgyblion yn cwblhau y tasgau hyn yn briodol. Ar y cyfan, mae athrawon iaith yn tynnu sylw at gamsillafu, camgymeriadau gramadegol ac atalnodi mewn rhai darnau penodol o waith ysgrifenedig.

Fodd bynnag, mae ymateb athrawon pynciau eraill i wallau o’r fath, yn enwedig y termau allweddol pynciol, yn anghyson.

## A2. Sicrhau darpariaeth cydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif a digidol disgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cydweithio’n briodol wrth ymateb i’r argymhelliad hwn. Mae cydlynwyr y medrau yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn dechrau cael effaith cadarnhaol ar gydlynu’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif a digidol disgyblion. Mae trefniadau rheoli llinell wedi cryfhau ers yr arolygiad craidd ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar godi proffil a phwysigrwydd datblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm .

Bellach, mae’r cydlynwyr yn arwain a chefnogi arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad i gynllunio ac mae hyn yn cyfrannu’n briodol at sicrhau darpariaeth mwy cydlynus traws ysgol. Mae’r cydlynwyr yn cyfrannu’n fuddiol at rai gweithgareddau sicrhau ansawdd fel craffu ar waith disgyblion a gwerthuso elfennau o’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhan o arsylwadau gwersi na theithiau dysgu ac mae hyn yn cyfyngu ar effaith eu gwaith, yn benodol y cyfleoedd i hyfforddi staff a modelu arferion da. Mae’r amser rheolaethol sydd gan rai cydlynwyr i wneud eu gwaith yn brin. Mae defnydd arweinwyr ar bob lefel o ddata a gwybodaeth fewnol am gyflawniad a chynnydd disgyblion yn dechrau cryfhau. Serch hyn, nid ydynt yn defnyddio’r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt er mwyn cynllunio strategaethau penodol ac mae hyn yn llesteirio cynnydd pellach yn y maes pwysig hwn.

Mae arweinwyr perthnasol wedi darparu ystod o hyfforddiant ac arweiniad addas i gynorthwyo staff i ddeall hanfodion y fframwaith llythrennedd a’u cyfrifoldeb i ddatblygu llafaredd, medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion o fewn eu pwnc neu faes dysgu a phrofiad. Rhoddodd yr ysgol ffocws cychwynnol traws ysgol ar ddatblygu uwch fedrau darllen. Rhoddwyd hyfforddiant pwrpasol i staff a chanllawiau clir i’r meysydd dysgu a phrofiad perthnasol ynglŷn â pha strategaethau darllen penodol i’w hymestyn o fewn eu meysydd ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi symud at ganolbwyntio’n agosach ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r strategaethau i ddatblygu uwch-fedrau darllen wedi gwreiddio ac mae’r cyfleoedd i ddatblygu medrau llafaredd yn anghyson ar draws y pynciau.

Yn dilyn hyfforddiant pwrpasol a chydweithio gyda phartneriaid allanol, mae arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad mewn sefyllfa well i werthuso ansawdd medrau llythrennedd o fewn eu meysydd. Maent wedi cryfhau eu gallu i arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Yn benodol, maent yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn ôl ei effaith ar safonau a chynnydd disgyblion.

Ers yr arolygiad craidd mae arweinwyr perthnasol wedi blaenoriaethu'n synhwyrol er mwyn rhoi cefnogaeth i arweinwyr maes dysgu a phrofiad gwyddoniaeth a daearyddiaeth i gynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Mae wedi darparu cefnogaeth a hyfforddiant priodol i arweinwyr canol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth yn y pynciau hyn, ac o ganlyniad mae ganddynt well ymwybyddiaeth o dasgau cyfoethog rhifedd. Er hyn, mae gwaith pellach i'w wneud ar gynllunio darpariaeth rhifedd o fewn pynciau perthnasol i sicrhau bod y tasgau'n bwrpasol ac yn adeiladu'n gynyddol.

Ers yr arolygiad craidd mae arweinwyr perthnasol wedi gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol disgyblion. Bellach, mae strwythur mwy cadarn i'r gwaith, yn dilyn symleiddio'r fframwaith a chydweithio ag arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad i gynllunio darpariaeth fwy bwriadus. Mae enghreifftiau cynnar o weithredu addas, megis tasgau digidol ym Mlynyddoedd 7 i 9 mewn lleiafrif o bynciau. Mae'r cydlynydd wedi datblygu defnydd o blatfform digidol i storio gwaith disgyblion er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae'r cydweithio trawsgwricwlaidd wedi cychwyn lle mae staff yn rhannu arfer effeithiol â'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ddatblygedig i gryfhau'r ddarpariaeth ar draws y pynciau.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth benodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 9 yn ystod y cyfnodau boreol. Mae'r rhain o ansawdd da ac mae athrawon yn parhau i ddatblygu eu hyder er mwyn eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r trefniadau i gefnogi disgyblion gyda medrau llythrennedd gwan yn briodol. Mae arweinwyr yn casglu gwybodaeth am lefelau cyrhaeddiad y disgyblion ac yn gosod asesiadau addas i ganfod eu hanghenion. Mae ymyraethau darllen a sillafu yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd dros gyfnod penodol. Mae darpariaeth briodol i gefnogi disgyblion sydd â medrau rhifedd gwan ym Mlynyddoedd 7 ac 8.

### A3. Miniogi trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant fel bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant a bellach rhoddir mwy o ystyriaeth i gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'r calendr sicrhau ansawdd yn cynnwys ystod lawnach o weithgareddau sy'n cael eu cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddysgu yn fwy effeithiol, er ar adegau, maent yn parhau i wirio am gydymffurfiaeth neu mae eu gwerthusiadau yn or-hael.

Mae ymdeimlad cryfach o waith tîm ymhlith arweinwyr canol cwricwlaidd a bugeiliol. Maent yn gweithio'n frwdfrydig ac yn elwa o'r gefnogaeth a'r her a gyflwynir mewn

cyfarfodydd rheolaeth llinell. Mae'r ysgol wedi grymuso'r cyfleoedd i arweinwyr y meysydd dysgu a phrofiad gyfrannu at ystod lawn o weithgareddau sicrhau ansawdd, yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i graffu ac arsylwi ar y cyd gydag aelodau o'r uwch dîm arwain a phartneriaid allanol. Mae arweinwyr canol wedi elwa o hyfforddiant pwrpasol i ddatblygu eu medrau arwain ac, o ganlyniad, maent yn datblygu gwell dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw cydlynwyr y medrau yn cael cyfleoedd i ymgymryd â theithiau dysgu ac arsylwadau gwersi.

Mae mwy o gyfleoedd priodol i ddisgyblion a rhieni rannu eu barn am waith yr ysgol trwy arolygon barn, fforymau ac holiaduron. Er enghraifft, mae rhieni wedi rhannu eu barn am ansawdd yr adroddiadau interim. Mae disgyblion yn dechrau cael mwy o gyfleoedd i gyfrannu eu barn am waith y meysydd dysgu a phrofiad a phynciau unigol trwy drafodaethau gydag arweinwyr canol. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn dadansoddi data yn briodol. Mae arweinwyr canol yn ystyried data lefel eitem yn dilyn arholiadau allanol yn synhwyrol. Mae hyn yn eu helpu i adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella yn y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn aml yn cymharu data perfformiad a phresenoldeb gyda'r darlun cenedlaethol a pherfformiad ysgolion yr awdurdod lleol. Wrth ystyried presenoldeb, nid ydynt pob amser yn ystyried perfformiad yr ysgol o gymharu gydag ysgolion tebyg na phresenoldeb grwpiau o ddisgyblion, yn ddigon miniog.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cynllunio ar gyfer gwella yn addas. Mae arweinwyr y meysydd dysgu a phrofiad yn adnabod blaenoriaethau perthnasol a phwrpasol ac yn ymgymryd â gwaith gwella yn frwdfrydig. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gwella ysgol gyfan a maes bob amser yn cynnwys meini prawf llwyddiant digon miniog na thargedau. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i arweinwyr fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a dal eraill yn atebol am eu gwaith.

Mae'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Fodd bynnag, megis cychwyn mae'r gwaith i fynd i'r afael â phresenoldeb.

## A4. Cryfhau'r cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ac ar gyfer rolau a chyfrifoldebau arwain ysgol gyfan

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, wedi cryfhau'r cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm. Maent wedi adolygu addasrwydd a chostau'r cynnig cwricwlaidd yn briodol er mwyn cynllunio addasiadau. Mae arweinwyr wedi adnabod ychydig o feysydd ble gellir gwneud arbedion ac wedi rhoi addasiadau ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/6. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi adolygu ac addasu'r polisi cwricwlwm er mwyn ceisio sicrhau darpariaeth mwy cost-

effeithiol i'r dyfodol. Bellach, ceir meini prawf eglur sy'n nodi y niferoedd o ddisgyblion sydd eu hangen er mwyn i gyrsiau lefel 2 a lefel 3 redeg. Er bod addasiadau pellach i'r cwricwlwm sy'n golygu mwy o gyrsiau galwedigaethol lefel 2 a lefel 3, nid yw'r ysgol wedi cynyddu ei chynnig cwricwlaidd o ran darparu pynciau addas i ddisgyblion mwy abl yn Mlwyddyn 10 ac 11.

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi rhoi ystyriaeth addas i rolau a chyfrifoldebau arwain ar draws yr ysgol. Bellach mae dosraniad synhwyrol o gyfrifoldebau gan yr uwch dîm arwain sy'n manteisio ar fedrau ac arbenigeddau unigolion. Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i gryfhau rolau yr arweinwyr canol. Bellach, maent yn chwarae rhan greiddiol yn nhrefniadau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant ac wrth arwain eu timau. Mae dylanwad gwaith yr arweinwyr canol ar wella ansawdd y ddarpariaeth ers adeg yr arolygiad craidd i'w ganmol.

## A5. Gwella presenoldeb

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi addasu cyfrifoldebau arweinwyr ynghyd â chyflwyno a chryfhau amrediad o strategaethau i wella presenoldeb. Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys cyfarfodydd buddiol rheolaidd rhwng y penaethiaid blwyddyn a'r swyddogion presenoldeb. Mae hyn wedi arwain at gryfhau y defnydd o ddata i fonitro presenoldeb ac adnabod grwpiau targed yn fwy effeithiol. Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr wedi sefydlu trefn newydd o gyfarfodydd wedi'u targedu gyda theuluoedd er mwyn trafod a cheisio goresgyn rhwystrau penodol er mwyn codi cyfraddau presenoldeb unigolion.

Yn gyffredinol, ers yr arolygiad craidd, nid yw arweinwyr wedi gweithredu gyda digon o frys i fynd i'r afael â gwendidau mewn presenoldeb. Er bod data mewnol, heb ei wirio, yn awgrymu tuedd gadarnhaol yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, mae cyfradd y cynnydd yn rhy araf ac nid yw'r strategaethau mwy diweddar wedi cael digon o effaith ar gynyddu presenoldeb.

Rhwng y blynyddoedd academaidd 2023-24 a 2024-25 roedd presenoldeb yr ysgol wedi gwella ychydig. Er hyn, mae presenoldeb disgyblion gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau'n is o'i gymharu ag ysgolion tebyg, ac yn sylweddol is na'r disgwyl. Mae cyfraddau absenoldeb parhaus wedi amrywio ychydig dros y cyfnod hwn, ond maent yn parhau'n rhy uchel ac nid ydynt yn cymharu'n dda â'r rhai mewn ysgolion tebyg eraill.

## A6. Sicrhau rheolaeth a monitro priodol o'r gyllideb

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi edrych yn briodol ar y sefyllfa gyllidol er mwyn cynllunio a gweithredu rhai arbedion. Mae rhain yn cynnwys gwneud newidiadau i'r cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi lleihau nifer y dosbarthiadau yn y pynciau craidd ym Mlwyddyn 10 a rhoddir ystyriaeth gofalus i faint grwpiau wrth benderfynu a ddylid rhedeg

pynciau penodol ym Mlwyddyn 10 c 11 ac yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r arbedion hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r diffyg sylweddol sydd gan yr ysgol.

Mae rhagolygon cyllidol yn awgrymu bydd y diffyg yn parhau i dyfu. Nid yw'r diffyg wedi ei thrwyddedu gan yr awdurdod lleol ac nid oes cynllun pendant i gefnogi'r ysgol i fynd i'r afael â hi.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.